

Taflen Wybodaeth i Gyfranogwyr

Teitl yr Astudiaeth:	Treialu fframwaith gwerthuso ar gyfer cyngor gyrfaedd sy'n cael ei bweru gan Model Iaith Mawr (LLM)
Ymchwilydd(Ymchwilwyr):	Peter Dickinson, Deirdre Hughes, Chris Percy, a Stef Poole – IER (Sefydliad Ymchwil Cyflogaeth, Prifysgol Warwick); Vincent Ramos (Prifysgol Southampton).

Cyflwyniad

Fe'ch gwahoddir i gymryd rhan mewn astudiaeth ymchwil. Cyn i chi benderfynu, mae angen i chi ddeall pam mae'r ymchwil yn cael ei wneud a beth fyddai'n ei olygu i chi. Darllenwch y wybodaeth ganlynol yn ofalus. Cysylltwch â ni os oes unrhyw beth yn aneglur neu os hoffech ragor o wybodaeth. Ystyriwch yn ofalus a ydych am gymryd rhan ai peidio.

Pwy sy'n trefnu ac yn ariannu'r astudiaeth?

Mae'r astudiaeth yn cael ei hariannu gan Sefydliad Nuffield ac yn cael ei chynnal gan ymchwilwyr o Brifysgol Warwick.

Beth yw'r astudiaeth?

Mae'r astudiaeth yn archwilio sut mae'r cyngor a roddir gan wahanol fathau o sgwrsfotiaid Deallusrwydd Artiffisial (AI) yn cymharu â chynghorwyr gyrfaedd. Mae hefyd yn datblygu fframwaith gwerthuso y gall pobl ei ddefnyddio i'w helpu i wneud cymariaethau.

Oes rhaid i mi gymryd rhan?

Mae eich cyfranogiad yn yr astudiaeth hon yn gwbl wirfoddol a gallwch dynnu'n ôl ar unrhyw adeg heb roi rheswm.

Beth fyddai cymryd rhan yn ei olygu?

Mae un o ddwy rôl y gallech gael eich neilltuo i'w chyflawni:

- Cymryd rhan mewn hap-dreial dan reolaeth lle gofynnwn i chi archwilio cwestiynau sy'n gysylltiedig â gyrfaedd o un o'r pedair ffynhonnell ganlynol (byddwch yn cael eich neilltuo ar hap i un o'r rhain):
 - Sgwrsfot AI cyffredinol;
 - Sgwrsfot sydd wedi'i gynllunio i ddarparu cyngor a chyfarwyddyd gyrfaedd;
 - Cynghorydd gyrfaedd profiadol;
 - Cynghorydd gyrfaedd profiadol gyda mynediad at sgwrsfot sydd wedi'i gynllunio i ddarparu cyngor a chyfarwyddyd gyrfaedd.Byddai hyn am 60 munud yn ystod cyfnod o wythnos.
Bydd hyn yn golygu eich bod yn cwblhau cyn-arolwg ychydig cyn yr ymyrraeth, arolwg ar ôl ei gwblhau, ac arolwg dilynol 6-8 wythnos.
Ni ddylai eich cyfranogiad gymryd mwy na 90 munud.
- Adolygu defnyddioldeb, cywirdeb a pherthnasedd sgwrsfotiaid AI. Bydd hyn yn golygu eich bod yn gofyn cwestiynau i sgwrsfot cyffredinol neu sgwrsfot gyrfaedd penodedig a chwblhau arolwg ar eu defnyddioldeb, pa mor ddefnyddiol yw'r wybodaeth a ddarperir, a'u perthnasedd i'ch sefyllfa. A darparu adborth ar y broses.
Ni ddylai eich cyfranogiad gymryd mwy na 60 munud.

Os, am unrhyw reswm, nad ydych yn fodlon â'r cyngor a roddir, gallwn drefnu i chi siarad â chynghorydd gyrfaedd dynol.

DS: Rydym yn deall y gallai rhai myfyrwyr fod yn gwneud penderfyniadau pwysig am eu gyrfaedd pan fyddan nhw'n rhan o'r astudiaeth. Nid yw eich cyfranogiad yn yr

astudiaeth yn eich gwahardd rhag chwilio am y wybodaeth, y cyngor a'r cyfarwyddyd ar yrfaeodd arferol y byddwch am neu'n awyddus i'w defnyddio. Byddech yn hollol rhydd i chwilio am a defnyddio unrhyw wybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd ar yrfaeodd sydd eu hangen arnoch wrth i chi gymryd rhan yn yr astudiaeth.

Beth yw manteision posibl cymryd rhan yn yr astudiaeth hon?

Bydd yn helpu i werthuso sgwrsfotiaid AI yn awr ac yn y dyfodol a gwerthuso'r cyngor gyrfaoedd y maent yn ei ddarparu.

Pa anfanteision, sgîl-ffeithiau neu risgiau all godi wrth gymryd rhan?

Nid oes disgwyl y bydd unrhyw risgiau i chi fel un sy'n cymryd rhan yn yr ymchwil.

Treuliau a thaliadau

Byddwch yn derbyn taleb Stryd Fawr gwerth £20 am gymryd rhan yn y prosiect.

A fydd fy rhan yn yr ymchwil yn gyfrinachol?

Bydd. Byddwn yn dilyn arferion moesegol a chyfreithiol llym a bydd yr holl wybodaeth amdanoch yn cael ei thrin yn gyfrinachol. Bydd yr holl wybodaeth a data a ddarparwch yn cael eu rhoi dan ffugenw, mae hyn yn golygu na fydd eich manylion cyswllt yn cael eu storio yn yr un ffeil â data arall rydych chi'n ei ddarparu. Bydd yr holl ddata yn cael ei storio'n ddiogel mewn ffolder wedi'i ddiogelu gan gyfrinair ym Mhrifysgol Warwick. Dim ond yr ymchwilwyr a enwir fydd yn cael mynediad i'r data. Ni fydd unrhyw ddata yn cael ei drosglwyddo y tu allan i Brifysgol Warwick.

Beth fydd yn digwydd i'r data a gasglwyd amdanaf?

Bydd unrhyw wybodaeth a ddarparwch yn cael ei chadw'n ddiogel mewn ffolder wedi'i ddiogelu gan gyfrinair ar weinyddion Prifysgol Warwick, at ddibenion yr ymchwil yn unig. Byddwn yn defnyddio'r data rydych chi'n ei ddarparu yn unig yn y dulliau sy'n ofynnol ar gyfer cynnal y gwerthusiad hwn a dadansoddi'r data sy'n deillio ohono.

Byddwn yn defnyddio gwybodaeth gennych i gynnal yr astudiaeth hon a bydd Prifysgol Warwick yn gweithredu fel rheolydd data ar gyfer yr astudiaeth hon. Rydym wedi ymrwmo i amddiffyn hawliau unigolion yn unol â deddfwriaeth diogelu data. Bydd eich manylion cyswllt yn cael eu dinistrio yn syth ar ôl diwedd y prosiect (Rhagfyr 2027). Bydd gwybodaeth am gydsyniad yn cael ei chadw'n ddiogel am 10 mlynedd ar ôl i'r astudiaeth orffen ac yna ei dinistrio'n ddiogel.

Bydd data ymchwil yn cael ei rhoi dan ffugenw cyn gynted â phosibl ar ôl casglu data. Mae hyn yn golygu y bydd yr holl ddynodwyr uniongyrchol ac anuniongyrchol yn cael eu tynnu o'r data ymchwil ac yn cael eu disodli gan rif cyfranogwr. Bydd yr allwedd adnabod yn cael ei storio yn ddiogel ac ar wahân i'r data ymchwil er mwyn diogelu eich hunaniaeth. Bydd yn bosibl i ni dynnu eich data yn ôl hyd at 3 wythnos ar ôl i'r data gael ei gasglu a bydd y data hwn wedyn yn cael ei ddinistrio'n ddiogel os hoffech i ni wneud hynny.

Os ydych chi'n siarad â chynghorydd gyrfaoedd dynol, gallwch ddarparu gwybodaeth bersonol fel eich enw. Bydd hyn yn cael ei ddileu o'r trawsgrifiad ar ôl y cyfarfod ac ni chaiff ei rannu.

Mae rhai o'r ymyriadau yn cynnwys defnyddio offer AI. Wrth ddefnyddio'r offer hyn, gallwch ddatgelu manylion personol. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei hadolygu gan gynghorydd gyrfaoedd i wirio cywirdeb ac ansawdd y cymorth a ddarperir mewn ymateb i'ch ymholiadau. Bydd yr holl drawsgrifiadau yn cael eu rhoi dan ffugenw fel na fydd yr offer AI na'r cynghorwyr gyrfaoedd sy'n adolygu'r offer yn gwybod pwy ydych chi na'ch manylion cyswllt. Os nodir unrhyw broblemau neu bryderon (megis gwybodaeth anghywir a rennir â chi) bydd y tîm ymchwil yn trefnu i chi siarad â chynghorydd gyrfaoedd am hyn. Mae'r data hefyd yn cael ei brosesu gan y cwmnïau sy'n rhedeg y platfformau, ond byddwn yn diffodd data hyfforddi fel na all y cwmnïau hyn ei ddefnyddio at eu dibenion hyfforddi.

Mae'r tîm ymchwil wedi trefnu trwyddedau i gael mynediad i'r offer AI angenrheidiol, sy'n cynnwys modelau iaith mawr ffiniol, gan sicrhau na fydd y sgysiau yn cael eu defnyddio ac eithrio fel sy'n ofynnol at ddibenion yr ymchwil hon a dyletswyddau cyfreithiol safonol

Rhannu Data

Bydd trawsgrifiadau dan ffugenw o'r ymyriadau yn cael eu rhannu â chynghorwyr gyrfaoedd annibynnol a fydd yn adolygu'r wybodaeth rydych chi'n ei darparu. Mae hyn er mwyn nodi a yw'r wybodaeth a ddarperir gan yr ymyrraeth yn gywir, nad yw'n gamarweiniol a/neu'n achos pryder, ac i asesu ansawdd y cyngor a ddarperir. Bydd y cynghorwyr gyrfaoedd hyn yn dileu'r trawsgrifiadau ar ôl iddynt eu hadolygu

Ni fydd data yn cael ei rhannu ag unrhyw sefydliad arall.

Mae eich hawliau i gael mynediad, newid neu symud eich gwybodaeth yn gyfyngedig, gan fod angen i ni reoli eich gwybodaeth mewn ffyrdd penodol er mwyn i'r ymchwil fod yn ddibynadwy ac yn gywir.

Mae gan Brifysgol Warwick bolisiau a gweithdrefnau ar waith i gadw'ch data yn ddiogel.

Beth fydd yn digwydd os nad ydw i eisiau parhau i fod yn rhan o'r astudiaeth?

Mae cyfranogiad yn gwbl wirfoddol, ac ni fydd penderfyniad i dynnu cyfranogiad o'r astudiaeth heb roi rheswm, yn effeithio arnoch chi mewn unrhyw ffordd. Os penderfynwch dynnu'n ôl o'r astudiaeth, dywedwch wrthym cyn neu yn ystod eich cyfranogiad a byddwn yn dinistrio eich manylion cyswllt yn ddiogel ac ni fyddwn yn cysylltu â chi eto at ddibenion yr ymchwil hon. Gallwch roi'r gorau i fod yn rhan o'r astudiaeth ar unrhyw adeg heb roi rheswm.

Ar ôl darparu gwybodaeth, bydd gennych dair wythnos i dynnu'ch data yn ôl. Gellir gwneud hyn trwy gysylltu â'r naill neu'r llall o'r ymchwilwyr isod. Ni fydd yn bosibl tynnu'ch data yn ôl 3 wythnos ar ôl i ddata gael ei gasglu. Er mwyn diogelu eich hawliau, byddwn yn defnyddio isafswm gwybodaeth bersonol a chadw'r data yn ddiogel.

Beth fydd yn digwydd i ganlyniadau'r astudiaeth?

Bydd canfyddiadau'r astudiaeth yn cael eu cyflwyno mewn adroddiad i Sefydliad Nuffield a'u rhoi ar gael i'r cyhoedd. Bydd yr holl ddata yn cael ei gyflwyno ar ffurf gyfanredol e.e. mewn tablau a graffiau. Bydd yr adroddiad ar gael ar wefan Sefydliad Nuffield a Phrifysgol Warwick.

Gyda phwy ddylwn i gysylltu os ydw i eisiau rhagor o wybodaeth?

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am unrhyw agwedd ar yr astudiaeth, neu eich rhan ynddi, nad ydynt wedi'u hateb gan y daflen wybodaeth hon i'r rhai sy'n cymryd rhan, cysylltwch â:

Peter Dickinson: p.dickinson@warwick.ac.uk

Stef Poole: stefanie.poole@warwick.ac.uk

Gyda phwy ddylwn i gysylltu os ydw i'n dymuno gwneud cwyn?

Bydd unrhyw gŵyn am y ffordd y cawsoch eich trin yn ystod yr astudiaeth neu unrhyw niwed posibl y gallech fod wedi'i ddioddef yn cael sylw. Cyfeiriwch eich cwyn at y person isod, sy'n uwch swyddog Prifysgol Warwick ac yn gwbl annibynnol ar yr astudiaeth hon:

Head of Research Governance

Research & Impact Services

University House

University of Warwick

Coventry

CV4 8UW

E-bost: researchgovernance@warwick.ac.uk

Ffôn: 024 76 522733

Os hoffech godi cwyn am sut rydym wedi trin eich data personol, gallwch gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data, Cyfarwyddwr Gwybodaeth a Data a fydd yn ymchwilio i'r mater: infocompliance@warwick.ac.uk

Os nad ydych yn fodlon â'n hymateb neu'n credu ein bod yn prosesu eich data personol mewn ffordd nad yw'n gyfreithlon, gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO).

Diolch am gymryd yr amser i ddarllen y Daflen Wybodaeth i Gyfranogwyr hon

HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

Sut y byddwn yn sicrhau ein bod yn defnyddio eich data personol yn deg ac yn dryloyw yn unol â gofynion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Sut y byddwn yn defnyddio eich data personol

Os ydych chi'n cytuno i gymryd rhan, byddwn yn gofyn i chi gadarnhau eich enw a'ch cyfeiriad e-bost. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth rydych chi'n ei darparu fel sail ar gyfer dadansoddiad er mwyn datblygu canfyddiadau'r astudiaeth.

Natur eich data personol y byddwn yn eu defnyddio

Y categorïau o ddata personol y byddwn yn gofyn amdanynt yw:

- Enw, cyfeiriad e-bost cyswllt a rhif ffôn, wrth lenwi'r ffurflen gydsyniad;
- I ble gellir gwneud taliadau am gymryd rhan yn yr astudiaeth.

Pam mae ein defnydd o'ch data personol yn gyfreithlon

O dan y GDPR, mae'n ofynnol i ni gael sail gyfreithlon ar gyfer prosesu eich data personol. At ddibenion y prosiect hwn, y sail gyfreithlon yw bod prosesu yn angenrheidiol er mwyn cyflawni tasg er budd y cyhoedd (e.e. darparu tystiolaeth ymchwil ddiduedd mewn erthygl).

Pwy fydd â mynediad at eich data personol?

Bydd mynediad at eich data personol yn cael ei gyfyngu i aelodau o dîm prosiect Sefydliad Ymchwil Cyflogaeth Warwick (IER) ar gyfer y prosiect ymchwil hwn. Ni fyddwn yn adrodd eich enw nac unrhyw beth a fyddai'n eich gwneud yn bersonol adnabyddadwy mewn unrhyw allbynnau o'r ymchwil a byddwn yn defnyddio ein gorau glas i sicrhau na fydd data mewn unrhyw allbynnau prosiect (e.e. adroddiadau a chyflwyniadau) yn caniatáu i unigolion neu eu sefydliadau gael eu hadnabod.

At ddibenion adrodd, bydd unrhyw wybodaeth adnabod yn cael ei dileu i sicrhau cyfrinachedd. Bydd y wybodaeth a ddarperir yn cael ei storio'n ddiogel ar ffolder wedi'i ddiogelu gan gyfrinair ym Mhrifysgol Warwick a bydd yn hygyrch i'r tîm ymchwil yn unig. Ni fydd manylion cyswllt yn cael eu storio yn yr un ffeil â'r wybodaeth a ddarperir gennych. Mae IER a'i weithdrefnau storio data yn cydymffurfio'n llawn â GDPR. Bydd data ymchwil cyfanredol ar gael (er enghraifft, mewn adroddiad neu erthygl gyhoeddedig) ond ni fydd ganddynt fynediad at unrhyw wybodaeth unigol, enwau, cyfeiriadau e-bost, rhifau ffôn a manylion adnabod eraill cyfranogwyr. Bydd canfyddiadau yr ymchwil wedi'u coladu yn cael eu cyhoeddi mewn adroddiad ymchwil ac erthygl cyfnodolyn ond ni fydd dim o'ch data personol yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad.

Eich hawl i dynnu cydsyniad yn ôl

Mae cymryd rhan yn yr astudiaeth hon yn gwbl wirfoddol. Ni fydd gwrthod cymryd rhan yn effeithio arnoch mewn unrhyw ffordd. Os ydych chi'n cytuno i gymryd rhan, gallwch dynnu'n ôl o'r astudiaeth ar unrhyw adeg: ni fydd unrhyw ganlyniad i hyn. Mae gennych yr hawl i dynnu'n ôl o'r astudiaeth yn llwyr a gwrthod unrhyw gyswllt pellach gan ymchwilwyr ar ôl i chi dynnu'n ôl. Fodd bynnag, ni fyddwch yn gallu tynnu'n ôl unrhyw ddata rydych chi'n ei ddarparu (ar wahân i fanylion cyswllt) dair wythnos ar ôl eich rhan yn yr astudiaeth.

Pa mor hir y byddwn yn cadw eich data personol?

Byddwn yn cadw eich data ffugenw am ddeng mlynedd yn unol â gofynion cadw data ymchwil Prifysgol Warwick. Bydd eich data cyswllt wedi'i storio yn cael ei ddileu cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd y prosiect.

Eich hawliau diogelu data

O dan rai amgylchiadau, mae gennych yr hawl i:

- ofyn i ni am fynediad at wybodaeth amdanoch chi sydd gennym ni;
- cywiro eich data personol, os yw'n anghywir neu'n anghyflawn;

- gofyn am ddileu neu symud ymaith ddata personol lle nad oes rheswm pendant dros barhau i'w brosesu;
- cyfyngu ar ein prosesu o'ch data personol (h.y. caniatáu ei storio ond dim prosesu pellach);
- gwrthwynebu marchnata uniongyrchol (gan gynnwys proffilio) a phrosesu at ddibenion ymchwil ac ystadegau gwyddonol/hanesyddol;
- peidio â bod yn ddarostyngedig i benderfyniadau sy'n seiliedig ar wneud penderfyniadau awtomataidd yn unig.

Os oes angen i chi gysylltu â ni ynglŷn ag unrhyw un o'r uchod, anfonwch e-bost at Swyddog Diogelu Data Prifysgol Warwick yn infocompliance@warwick.ac.uk. Am ragor o fanylion gweler <https://warwick.ac.uk/services/idc/dataprotection/datasubjectrights>

Eich hawl i gwyno

Os ydych chi'n anhapus â'n defnydd o'ch data personol, rhwch wybod i ni drwy gysylltu â:

Head of Research Governance
Research & Impact Services
University House
University of Warwick
Coventry
CV4 8UW

E-bost: researchgovernance@warwick.ac.uk

Gallwch hefyd gysylltu â Swyddog Diogelu Data'r Adran Addysg drwy gov.uk gan farcio eich gohebiaeth at sylw'r 'DPO'.

Fel arall, mae gennych yr hawl i godi unrhyw bryderon gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) trwy eu gwefan yn <https://ico.org.uk/concerns/>

Diolch am gymryd yr amser i ddarllen y Daflen Wybodaeth i Gyfranogfwyr hon